

Esgobaeth
Bangor
The Diocese
of Bangor

Grŵp Cadfan
11/2019

3

Agenda

4

Deudd ar gyfer
Sesiwn 3
Material for
Session 3

8

Cyflwyniad i'r
addoliad
Introduction to
worship

10

Addoliad agoriadol
Opening worship

16

Addoliad hwyrol
Evening worship

22

Cymun Bendigaid
Holy Eucharist

30

Nodiadau
Notes

Agenda

Dydd Mawrth / 26 Tachwedd

- 12.30 Cyrraedd a chinio
- 13.30 **Addoliad agoriadol**
Wynebau Crist / Croeshoeliedig
Myfyrdod / Philip Barratt
- 14.00 **Sesiwn 1**
Preswyllo mewn lle newydd
Sesiwn o archwilio ac ymddiddan dan arweiniad yr Esgob
- 15.30 Paned
- 16.00 **Sesiwn 2**
Preswyllo mewn lle newydd
Cyfle i drafod y mewnbyn mewn grwpiau bach
- 17.30 **Addoliad hwyrol**
Wynebau Crist / Barnwr
Myfyrdod / Susan Blagden
- 19.00 Swper
Siaradwr / **Matthew Buchan**

Tuesday / 26 November

- Arrival and lunch
- Opening worship**
The Faces of Christ / Crucified
Reflection / Philip Barratt
- Sesiwn 1**
Inhabiting a new space
A session of exploration and conferring led by the Bishop
- Tea
- Session 2**
Inhabiting a new space
An opportunity to discuss the input in small groups
- Evening worship**
The Faces of Christ / Judge
Reflection / Susan Blagden
- Dinner
Speaker / **Matthew Buchan**

Dydd Mercher / 27 Tachwedd


- 08.00 Brechwast
- 09.15 **Cymun Bendigaid**
Wynebau Crist / Atgyfodedig
Myfyrdod / Siôn Rhys Evans
- 10.00 **Sesiwn 3**
Llan: Ein prosiect â chefnogaeth Cronfa Efynglyu'r Eglwys yng Nghymru
Sesiwn ar y cyd
- 11.00 Paned
- 11.30 **Sesiwn 4**
Cyllid ac eiddo
Sesiwn ar y cyd
- 12.30 Cinio ac ymadael

Wednesday / 27 November

- Breakfast
- Holy Eucharist**
The Faces of Christ / Resurrected
Reflection / Siôn Rhys Evans
- Session 3**
Llan: Our project with the support of the Church in Wales Evangelism Fund
Plenary session
- Coffee
- Session 4**
Finance and property
Plenary session
- Lunch and departure



LLAN



Pa efengylu newydd y gallem ei wneud i hyrwyddo ein canolbwyntiau o fewn ein fframwaith strategol, ond a fyddai'n anfforddiadwy neu'n rhy fentrus i'n hadnoddau presennol?

What new, evangelistic things could we do to advance our priorities within our strategic framework that would be unaffordable or too risky for our existing resources?



Meithrin disgyblion

Nurturing disciples

Pererindod Pilgrimage

Beth?

- Datblygu llwybrau aml-lefel i adrodd y stori Gristnogol
 - Llwybrau sy'n cysylltu eglwysi, cysegrfeydd, meini hirion, ffynhonnau, safleoedd hanesyddol a diwylliannol, seintiau o bob oes
 - Pererindodau diwrnod a phreswyl
 - Pererindodau un safle
 - Amlgyfrwng
 - Ar gyfer pob oedran
 - Llwybrau y tu hwnt / yn ddyfnach
- Adeiladu brand a nwyddau pererindod Eglwys yng Nghymru
- Meithrin gweinidogaeth arwain pererindod fel gweinidogaeth efengylaidd a gomisiynwyd
- Datblygu canolfannau pererindod

Allbynnau?

- Haneswyr, diwinyddion, litwrgwyr a chatecistiaid yn crefftio llwybrau
- Cyfarwyddwr Marchnata, Datblygu a Chynnaladwyedd yn meithrin gallu masnachol twristiaeth ffydd
- Brand wedi'i ddatblygu
- Hyfforddiant gweinidogaeth wedi'i gomisiynu gydag Ymddiriedolaeth Pererindod Prydain

Canlyniadau?

- 150 o bererindodau ysgol p.a.
- 18,000 o gyfarfyddiadau trothwy
- 6 pererindod undydd, 3 aml-ddiwrnod p.a.
- 3 phrosiect dehongli eglwysig p.a.
- 3 Lle Pererindota Bach p.a.
- Seilwaith ar-lein cynhwysfawr

Effaith?

- Gwell hygredd yr Eglwys fel stiward pethau ystyrion
- Dal straeon am ymgysylltu â ffydd
- Gweinidogaeth sy'n canolbwyntio ar geiswyr
- Cronni hygredd yr Eglwys yn yr economi ffydd-dwristiaeth

What?

- Development of multi-valent pathways to tell the Christian story
 - Routes connecting churches, shrines, standing stones, wells, historical and cultural sites, saints of all the ages
 - Day-long and residential pilgrimages
 - Single-site pilgrimages
 - Multi-media
 - For all ages
 - Pathways beyond / deeper
- Building up Church in Wales pilgrimage brand and merchandise
- Nurturing ministry of pilgrimage-leading as an evangelistic commissioned ministry
- Development of pilgrimage centres

Outputs?



- Historians, theologians, liturgists and catechists crafting pathways
- Director of Marketing, Development & Sustainability building up faith-tourism commercial capacity
- Brand developed
- Ministry training commissioned with British Pilgrimage Trust

Outcomes?

- 150 school pilgrimages p.a.
- 18,000 threshold encounters
- 6 day, 3 multi-day pilgrimages p.a.
- 3 church interpretation projects p.a.
- 3 Small Pilgrim Places p.a.
- Comprehensive online infrastructure

Impact?

- Enhanced credibility of Church as steward of meaningful things
- Capturing stories of faith engagement
- Seekers-focused ministry
- Accumulating credibility of Church in faith-tourism economy





Tyfu gweinidogaethu newydd

Growing new ministries

Iaith

Language

Beth?

- Cymuned efengylaidd Gymraeg
 - Arweinydd arloesi
 - Cymuned addoli wedi'i chasglu
 - Cymuned breswyl o Gynorthwyyr Efengylaidd
- Galluogi efengylu Cymraeg ar draws ein Ardaloedd Gweinidogaeth
 - Adnoddau catechetig / efengylu proses newydd
 - Gwella cyfathrebu Cymraeg mewn Ardaloedd Gweinidogaeth
 - Datblygu presenoldeb ar-lein Cymraeg efengylaidd
 - Meithrin galwedigaethau Cymraeg

Allbynnau?

- Recriwtio arweinydd arloesol
- Deinamig y gymuned breswyl wedi ei adnabod, ac eiddo wedi'i nodi a'i ddatblygu
- Recriwtio galluogwr
- Sefydlu partneriaeth TG

Canlyniadau?

- Sefydlu cynulleidfa addoli o 30-40
- 4 Cynorthwyydd Efengylaidd preswyl
- Lansio Alpha/Pererin Cymraeg
- Sefydlu presenoldeb cyfryngau cymdeithasol

Effaith?

- Hyder yng ngweinidogaeth Efengylwyr
- Cynnydd mewn galwedigaethau ordeiniedig a lleyg Cymraeg
- Ymgawdoliad Anglicanaidd dyfnach
- Hyder mewn model neo-fynachaidd

What?

- An evangelistic Welsh-language community
 - Pioneer leader
 - Gathered worshipping community
 - Residential community of Evangelist-Assistants
- Enabling Welsh-language evangelism across our Ministry Areas
 - New catechetical / process evangelism resources
 - Improving Welsh-language communication in Ministry Areas
 - Developing evangelistic Welsh-language online presence
 - Nurturing Welsh-language vocations

Outputs?

- Pioneer leader recruited
- Residential community dynamic codified, and property identified and developed
- Enabler recruited
- IT partnership established

Outcomes?

- Worshipping congregation of 30-40 established
- 4 resident Evangelist-Assistants
- Welsh-language Alpha/Pilgrim launched
- Social media presence established

Impact?

- Confidence in ministry of Evangelists
- Increase in ordained and lay Welsh-language vocations
- Deeper Anglican inculturation
- Confidence in neo-monastic model



Croesawu plant, pobl ifanc a theuluoedd

Welcoming children, youth and families

Mentrau Enterprises

Beth?

- 4 menter gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar y deyrnas
 - 4 gweithredwr arloesol
 - 4 tîm
 - Amrywiaeth o fentrau posibl: lletygarwch, darparu gwasanaeth, diwylliannol / artistig, chwaraeon

Allbynnau?

- Dynodwyd 2 arweinydd
- Cadarnhawyd a chychwynwyd rhaglen Church Mission Society ("Making Good") and Church Army (efenglydd)
- Dynodwyd 2 leoliad a dechreuwyd cynllunio busnes
- Dynodwyd 2 dîm

Canlyniadau?

- Dechreuwyd 4 menter
- Cyswllt dwys â 200 mewn braced oed 20-40
- Cyswllt llai â 400 mewn braced oed 20-40
- Metrig ar gyfer bedydd babanod ac oedolion

Effaith?

- Prif ffrwd efengylu nad yw'n adeilad eglwys
- Tystiolaeth trawsnewid cymunedol
- "Coleg" ymarferwyr
- Hyder i blannu o fewn yr adnoddau AW presennol

What?

- 4 kingdom oriented social enterprises
 - 4 pioneer activists
 - 4 teams
 - Range of possible enterprises: hospitality, service-delivery, cultural / artistic, sporting

Outputs?


- 2 leaders identified
- Church Mission Society ("Making Good") and Church Army (evangelist) programme confirmed and commenced
- 2 locations identified and business planning commenced
- 2 teams identified


Outcomes?

- 4 enterprises commenced
- Intensive contact with 200 in 20-40 age bracket
- Looser contact with 400 in 20-40 age bracket
- Metric for infant and adult baptism

Impact?

- Non-church-building evangelism mainstreamed
- Community transformation evidence
- "College" of practitioners
- Confidence to plant within existing MA resources





WYNNIE
BAU
CRIST
FACES
OF THE
RIST

Yng nghyfarfodydd Grŵp Cadfan eleni mae ein haddoliad yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar berson a dwyfoldeb Iesu Grist.

Wrth i ni gyfarfod dros y ddau ddiwrnod hyn, rhown sylw i:

Iesu, yr Un a groeshoeliwyd a'r Un sy'n dod â maddeuant ac achubiaeth

Iesu, yr Un sy'n Farnwr arnom ac a ddaw eto

Iesu, yr Atgyfodiad a'r Bywyd Newydd

At the Grŵp Cadfan meetings this year our worship is centred upon different aspects of person and divinity of Jesus Christ.


As we meet over these two days, we focus upon:

Jesus, the One who was Crucified and is the One who brings to us forgiveness and redemption

Jesus, the One who is our Judge and who will come again

Jesus, the Resurrection and New Life

IESVS IN ZAIVENVS REX IYDAEORVM



CROCE
SINO
LIEDI
G
CINUC
IETED

Addoliad agoriadol / Opening worship

Gweddi ymgynnull / Gathering prayer

In Jesus 'we have redemption through his blood,
the forgiveness of our trespasses,
according to the riches of his grace that he lavished upon us.'¹

¹ Effesiaid | Ephesians 1: 7-8a

O God, as we gather in your Presence:

**May we be at one with you
in our worship,
in our listening,
and in our willingness to be transformed
by our receiving of the riches of your grace
during this time away.
In the name of Jesus Christ,
our Hope and Redeemer,
we pray.
Amen.**

Ceisio maddeuant / Seeking forgiveness

Ysgrifennodd Thomas Merton, 'Ymddengys mai un elfen gyffredin ym mhob aberth yw'r ymdrech i gymodi â Duw, sef Cymod. Mae purdeb aberth yn cyfateb, mewn gwirionedd, i burdeb y syniad o gymod y mae'n ei awgrymu.'²

**Y mae in Waredwr,
Iesu Grist Fab Duw,
werthfawr Oen ei Dad,
Meseia, sanctaidd, sanctaidd yw.**

*Diolch, O Dad nefol,
am ddanfôn Crist i'n byd,
a gadael dy Ysbryd Glân
i'n harwain ni o hyd.*

Deuwn i wneud iawn gerbron Duw.

Adferwn gydbwysedd a chytgord yn ein bywydau.

Ceisiwn Waredwr ein heneidiau.

Tawelwch / Silence

**Iesu fy Ngwaredwr,
enw ucha'r nef,
annwyl Fab ein Duw, Meseia
'n aberth yn ein lle.**

*Diolch, O Dad nefol,
am ddanfôn Crist i'n byd,
a gadael dy Ysbryd Glân
i'n harwain ni o hyd.*

To the One who brings forgiveness, let us pray:

**I come before you with a contrite heart,
remembering all that takes me from your side
and from your loving presence.
Forgive me and reconcile me to you,
through the blood of Jesus Christ.
Amen.**

In repenting and turning back to God,
know your sins are forgiven.

Amen.

**When I stand in glory,
I will see his face,
and there I'll serve my King for ever,
in that holy place.**

*Thank you, O my Father,
for giving us your Son,
and leaving your Spirit
till the work on earth is done.*

² Jean Vanier, **The Living Bread**

Translation / Thomas Merton wrote, 'It would appear that one common element in all sacrifices is the striving for reconciliation with God that is Atonement. The purity of a sacrifice corresponds, in fact, to the purity of the notion of reconciliation which it implies.'

Translation of the hymn / There is a Redeemer, / Jesus, God's own Son, / precious Lamb of God, / Messiah, Holy One. / Thank you, O my Father, / for giving us your Son, / and leaving your Spirit / till the work on earth is done.

Translation of the introduction to Confession

/ Let us come and make amends before God. Let us come and seek to restore balance and harmony in our lives. Let us come and seek out the Redeemer of our souls.

Translation of the hymn / Jesus, my Redeemer, / name above all names, / precious Lamb of God, Messiah, / O for sinners slain. / Thank you, O my Father, / for giving us your Son, / and leaving your Spirit / till the work on earth is done.

Darllenid / Reading

Eseia | Isaiah 44:21-28

Thus says the Lord: Remember these things, O Jacob, and Israel, for you are my servant; I formed you, you are my servant; O Israel, you will not be forgotten by me. I have swept away your transgressions like a cloud, and your sins like mist; return to me, for I have redeemed you. Sing, O heavens, for the Lord has done it; shout, O depths of the earth; break forth into singing, O mountains, O forest, and every tree in it! For the Lord has redeemed Jacob, and will be glorified in Israel.

Thus says the Lord, your Redeemer, who formed you in the womb: I am the Lord, who made all things, who alone stretched out the heavens, who by myself spread out the earth; who frustrates the omens of liars, and makes fools of diviners, who turns back the wise, and makes their knowledge foolish; who confirms the word of his servant, and fulfils the prediction of his messengers; who says of Jerusalem, 'It shall be inhabited', and of the cities of Judah, 'They shall be rebuilt, and I will raise up their ruins'; who says to the deep, 'Be dry— I will dry up your rivers'; who says of Cyrus, 'He is my shepherd, and he shall carry out all my purpose'; and who says of Jerusalem, 'It shall be rebuilt', and of the temple, 'Your foundation shall be laid.'

Tawelwch / Silence

Darllenid / Reading

Hebreaid | Hebrews 9:11-15

Frodyr a chwirydd: Yn awr daeth Crist, archoffeiriad y pethau da sydd wedi dod. Trwy dabernacl rhagorach a pherffeithiach, nid o waith llaw (hynny yw, nid o'r greadigaeth hon), ac nid â gwaed geifr a lloi, ond â'i waed ei hun, yr aeth ef i mewn un waith am byth i'r cysegr, a sicrhau prynedigaeth dragwyddol. Oblegid os yw gwaed geifr a theirw, a lludw anner, o'i daenu ar yr halogedig, yn sancteiddio hyd at buredigaeth allanol, pa faint mwy y bydd gwaed Crist, yr hwn a'i hoffrymodd ei hun trwy'r Ysbryd tragwyddol yn ddi-nam i Dduw, yn puro ein cydwybod ni oddi wrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu'r Duw byw.

Am hynny, y mae ef yn gyfryngwr cyfamod newydd, er mwyn i'r rhai sydd wedi eu galw gael derbyn yr etifeddiaeth dragwyddol a addawyd, gan fod marwolaeth wedi digwydd er sicrhau rhyddhad oddi wrth y troseddau a gyflawnwyd dan y cyfamod cyntaf.

Myfyrdod / Reflection

Philip Barratt

Translation / Brothers and sisters: When Christ came as a high priest of the good things that have come, then through the greater and perfect tent (not made with hands, that is, not of this creation), he entered once for all into the Holy Place, not with the blood of goats and calves, but with his own blood, thus obtaining eternal redemption. For if the blood of goats and bulls, with the sprinkling of the ashes of a heifer, sanctifies those who have been defiled so that their flesh is purified, how much more will the blood of Christ, who through the eternal Spirit offered himself without blemish to God, purify our conscience from dead works to worship the living God! For this reason he is the mediator of a new covenant, so that those who are called may receive the promised eternal inheritance, because a death has occurred that redeems them from the transgressions under the first covenant.

Ymbiliau / Prayers of intercession

Arglwydd, arwain trwy'r anialwch,
ni, bererinion gwael ein gwedd.

Pan ymddengys yr Eglwys yn wan yn ei ffydd,
adfer ni gydag egni a chariad.

Tawelwch / Silence

Pan ymddengys y byd yn ddiffrwyth ei gyfiawnder a'i heddwch,
arwain ni gydag adferiad a gobaith.

Tawelwch / Silence

Pan fydd bywydau'n cymdogion a'n cymunedau yn gythryblus,
adfer gyda chytgord ac iachâd.

Tawelwch / Silence

Together we pray:

**Guide us, O thou Great Redeemer,
on this our pilgrim journey,
for you are our strength and our shield.
Restore in us a prayerfulness for all people,
and for all places.
Amen.**

Gweddî'r Arglwydd / The Lord's Prayer

To God we pray:

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth.
Amen.**

Translation / Guide us, O
thou Great Redeemer, on this
our pilgrim journey. / When
the Church seems weak in
faith, restore us with energy
and love. / When the world
seems barren of justice and
peace, bring restoration and
hope. / When the lives of
those we know are troubled,
restore with harmony and
healing.

Emyn / Hymn

In the depths of human suffering
in the mystery of loss,
in the cry of desolation
we are walking with the Cross.

Pan fo calon drom yn gwegian
dan holl ormes galar du,
ti sydd yno, yn cyd-gerdded
pererindod Calfari.

When relationships are broken,
and the ties of trust are torn,
God walks with us, bearing witness
in the wait for hope newborn.

When our world is spoiled and damaged,
air polluted, beauty marred,
God walks with us, bearing witness
to the tending of earth's scars.

Yng ngriddfanau'r greadigaeth,
gydol galar, poen a loes,
ar hir lwybrau iachawdrwiaeth,
ti yw'n gobaith, Crist y Groes.

Translation / When our
hearts are sore and aching,
/ grieving, weary with the
strain, / God walks with us,
bearing witness / to the love
that holds our pain.


Translation / In and through
creation's suffering, / in the
mystery of loss, / on the road
to our redemption / God is
walking with the cross.

Gweddi gloi / Closing prayer

'For I know that my Redeemer lives,
and that at the last he will stand upon the earth'.³

³ Job 19:25

To our Redeemer and our Hope:
**Watch over our time together,
that the words we speak
and the discussions we have
will set us free to build up your Church.
Amen.**



BAR
NWR
JUD
GE

Addoliad hwyrrol / Evening worship

Gweddi ymgynnull / Gathering prayer

Yng ngoleuni oriau'r dydd:

Ceisiaf, O Dduw, dy gwmni.

Yn nhywyllu oriau'r gydnos:

Ceisiaf, O Dduw, dy gwmni.

Mewn unigedd a mewn cymuned:

Ceisiaf, O Dduw, dy gwmni.

Translation / In the light of the daytime hours: Nearer to you, O God, I seek to be. / In the darkening of the evening hours: Nearer to you, O God, I seek to be. / In times alone and in times gathered together: Nearer to you, O God, I seek to be.

Emyn / Hymn

Rejoice! The Lord is King,
your Lord and King adore.
Mortals, give thanks and sing,
and triumph evermore:
Lift up your heart, lift up your voice;
rejoice; again I say: rejoice!

Iesu deyrnasa fyth;
drwy rym ei aberth mawr
bechodau rif y gwllith
gilia pan ddaw ei wawr.
Galonnau gwan, rhowch lawen lef;
i'n t'wyllwch daw oleuni nef.

Rejoice in glorious hope,
for Christ, the Judge will come,
and take his servants up
to their eternal home:
Lift up your heart, lift up your voice;
rejoice; again I say: rejoice!

Translation / Jesus the Saviour reigns, / the God of truth and love; / when he had purged our stains, / he took his seat above: / Lift up your heart, lift up your voice; / rejoice; again I say: rejoice!

Ceisio maddeuant / Seeking forgiveness

On the day of judgement you will have to give an account for every careless word you utter. ⁴

⁴ Mathew | Matthew 12:36

Come, O long expected Jesus, and set us your people free.

Judge us not with harshness but with love.

Free us from our sins and fears.

Tawelwch / Silence

Let us pray:

**When the words we speak condemn us,
forgive us and set us free.**

**When our deeds and actions condemn us,
forgive us and set us free.**

**When our silence and neglect condemn us,
forgive us and set us free.**

God, the judge of all, sets all people free
when repentance is offered from the heart.
Know the love and nearness of God with you,
now and in the ages to come.

Amen.

Darlleniad / Reading

Y Pregethwr | Ecclesiastes 12:11-14

Y mae geiriau'r doethion fel symbylau, a'r casgliad o'u geiriau fel hoelion wedi eu gosod yn eu lle; y maent wedi eu rhoi gan un bugail. Cymer rybudd, fy mab, rhag ychwanegu atynt. Y mae cyfansoddi llyfrau yn waith diddiwedd, ac y mae astudio dyfal yn flinder i'r corff.

Wedi clywed y cyfan, dyma swm y mater: ofna Dduw a chadw ei orchmynion, oherwydd dyma ddyletswydd pob un. Yn wir, y mae Duw yn barnu pob gweithred, hyd yn oed yr un guddiedig, boed dda neu ddrwg.

Tawelwch / Silence

Translation / The sayings of the wise are like goads, and like nails firmly fixed are the collected sayings that are given by one shepherd. Of anything beyond these, my child, beware. Of making many books there is no end, and much study is a weariness of the flesh. The end of the matter; all has been heard. Fear God, and keep his commandments; for that is the whole duty of everyone. For God will bring every deed into judgement, including every secret thing, whether good or evil.

Darlleniad / Reading

2 Pedr | Peter 3:8-13

Dearly beloved: Do not ignore this one fact, that with the Lord one day is like a thousand years, and a thousand years are like one day. The Lord is not slow about his promise, as some think of slowness, but is patient with you, not wanting any to perish, but all to come to repentance. But the day of the Lord will come like a thief, and then the heavens will pass away with a loud noise, and the elements will be dissolved with fire, and the earth and everything that is done on it will be disclosed.

Since all these things are to be dissolved in this way, what sort of people ought you to be in leading lives of holiness and godliness, waiting for and hastening the coming of the day of God, because of which the heavens will be set ablaze and dissolved, and the elements will melt with fire? But, in accordance with his promise, we wait for new heavens and a new earth, where righteousness is at home.

Myfyrdod / Reflection

Susan Blagden

Magnificat

I will praise you O God:
my spirit is full of joyfulness when I think of you.

**You have looked upon me:
and seen how I can serve you.**

Through you, I shall be a blessing to generations still to come:
through all you have brought to fruition from within me.

**Your name is holy and merciful:
showing mercy upon all who come to know you.**

In your arm there is strength:
to lift up the unseen and voiceless of this world.

**You will feed those who hunger for your word:
and will send away those who refuse to listen.**

As you have been with Israel, in remembrance and mercy:
and with Abraham and all who followed him; so be with us.

Amen.

Ymbiliau / Prayers of intercession

As we await your coming again, we pray for righteous judgement to dawn across all the communities of this world.

We pray:

For your Church, to put faith into action with love and mercy

Tawelwch / Silence

For your world and its appointed leaders, to put justice into action with wisdom and courage:

Tawelwch / Silence

For those in need of healing, to know compassion in action through care and concern:

Tawelwch / Silence

For those close to death, or those who have died recently, to know love in action through the eternal promise of Jesus Christ.

Tawelwch / Silence

To the One who is Judge of all:

**We lift our prayers
with faith and hope.
Amen.**

Gweddi'r Arglwydd / The Lord's Prayer

To God we pray:

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr y^m ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth.
Amen.**

Emyn / Hymn

Wele'n dyfod fflam i'n t'wyllwch,
 Fab y Dyn ar newydd wawr;
 wele mil ar fil o seintiau'n
 osgordd i'w orchestu mawr.
 Hallelwia! Hallelwia! Hallelwia!
 Dychwel teyrnas Crist yn awr.

Ef fydd kannwyll pob rhyw lygad,
 arswyd nef yn lliwio'i wedd;
 a pharchedig ofn yn cipio'r
 byd a wnaeth ei Groes yn fedd.
 I'n trueni, i'n trueni, i'n trueni,
 daw dosturi Frenin nef.

Those dear tokens of his passion
 still his dazzling body bears,
 cause of endless exultation
 to his ransomed worshipers;
 with what rapture, with what rapture,
 with what rapture,
 gaze we on those glorious scars!

Yea, amen! let all adore thee,
 high on thine eternal throne;
 Saviour, take the power and glory;
 claim the kingdom for thine own:
 Alleluia! Alleluia! Alleluia!
 Thou shalt reign, and thou alone.

Translation / Lo! he comes
 with clouds descending, /
 once for our salvation slain;
 / thousand, thousand saints
 attending / swell the triumph
 of his train: / Alleluia!
 Alleluia! Alleluia! / Christ the
 Lord returns to reign. // Ev'ry
 eye shall now behold him, /
 robed in dreadful majesty;
 / those who set at nought
 and sold him, / pierced,
 and nailed him to the tree,
 / deeply wailing, deeply
 wailing, deeply wailing, /
 shall the true Messiah see.

Gweddi gloi / Closing prayer

Jesus said:

See I am coming soon;
 my reward is with me, to repay according to everyone's work.

I am the Alpha and Omega,
 the first and the last,
 the beginning and the end.

Amen. Come, Lord Jesus. ⁵

⁵ Datguddiad | Revelation 22:20

As the shadows lengthen and night comes upon us:
 Nearer to you, O God, I seek to be.

Amen. Come, Lord Jesus.



Cymun Bendigaid / Holy Eucharist

Ymgyddion Gathering

Jesus said: I am with you always, to the end of the age.
The green blade riseth, and bursts forth from the tomb.
Love is come again, like wheat that springeth green.

Grace and peace be with you.

And also with you.

Let us pray:

O God,
your Love came to earth in a new-born babe;
your Love rose from the earth in the resurrection.
Help us to know your Love in this Thanksgiving.
Help us to live your Love daily in faith
Following the way of Jesus Christ,
with us always, to the end of the age.
Amen.

Emyn / Hymn

Thine be the glory, risen, conqu'ring Son,
endless is the vict'ry thou o'er death hast won;
angels in bright raiment rolled the stone away,
kept the folded grave clothes where thy body lay.

*Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd,
Cododd ein Gwardwr, daeth o'i rwymau'n rhydd.*

Lo! Jesus meets us, risen from the tomb;
lovingly he greets us, scatters fear and gloom.
Let the Church with gladness hymns of triumph sing,
for the Lord know liveth; death hast lost its sting.

*Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd,
Cododd ein Gwardwr, daeth o'i rwymau'n rhydd.*

No more we doubt thee, glorious Prince of Life!
Life is naught without thee: aid us in our strife.
Make us more than conqu'rors
through thy deathless love.
Bring us safe through Jordan to thy home above.

*Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd,
Cododd ein Gwardwr, daeth o'i rwymau'n rhydd.*

Translation / At that time:
Jesus said, "I am the good
shepherd.

Ceisio maddeuant / Seeking forgiveness

To God, we lift up our souls,
seeking the new life and peace.

In God is our trust
and from God comes our forgiveness.

Tawelwch / Silence

Let us pray:

**Make me to know ways, O God,
and teach me your paths.
Lead me in your truth and teach me,
for you are the God of salvation.
Relieve me of my troubles
and bring me out of my distress,
and forgive me all my sins.
Amen.**

All the paths of God
are ones of steadfast love and faithfulness,
and to those who keep the covenant of God
is promised forgiveness.

Know and feel the forgiveness of God,
with you now and to the end of the age
through the life and resurrection of Jesus Christ.

Amen.

Colect / Collect

Dduw pob bywyd, Dduw pob gogoniant,
cyfodaist bopeth o'r newydd
yn atgyfodiad dy Fab.
Caniatâ i ni, a alwyd i'r un bywyd newydd hwnnw drwy ffydd,
wybod, ar derfyn y daith, gyflawnder newydd-deb atgyfodiad;
trwy Iesu Grist,
yma'n nawr ac hyd ddiwedd yr oes.

Amen.

Translation / God of all life,
God of all glory, you have
brought into being all things
new in the resurrection of
your Son. Grant that we,
called to this new life through
faith, may at the last, know
the fullness of the new life of
resurrection; through Jesus
Christ, with us now and to
the end of the age. Amen.

Darllenriad o'r Testament Newydd / New Testament reading

Rhufeiniaid | Romans 12:1-8

Brothers and sisters: I appeal to you, by the mercies of God, to present your bodies as a living sacrifice, holy and acceptable to God, which is your spiritual worship. Do not be conformed to this world, but be transformed by the renewing of your minds, so that you may discern what is the will of God—what is good and acceptable and perfect.

For by the grace given to me I say to everyone among you not to think of yourself more highly than you ought to think, but to think with sober judgement, each according to the measure of faith that God has assigned. For as in one body we have many members, and

not all the members have the same function, so we, who are many, are one body in Christ, and individually we are members one of another. We have gifts that differ according to the grace given to us: prophecy, in proportion to faith; ministry, in ministering; the teacher, in teaching; the exhorter, in exhortation; the giver, in generosity; the leader, in diligence; the compassionate, in cheerfulness.

Listen to what the Spirit is saying to the Church.

Thanks be to God.

Tawelwch / Silence

Efengyl / Gospel

Luc | Luke 24:13-35

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Luc.

Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Bryd hynny: Yr oedd dau ohonynt ar eu ffordd i bentref, oddeutu un cilomedr ar ddeg o Jerwsalem, o'r enw Emaus. Yr oeddent yn ymddiddan â'i gilydd am yr holl ddigwyddiadau hyn. Yn ystod yr ymddiddan a'r trafod, nesaodd Iesu ei hun atynt a dechrau cerdded gyda hwy, ond rhwystrwyd eu llygaid rhag ei adnabod ef. Meddai wrthynt, 'Beth yw'r sylwadau hyn yr ydych yn eu cyfnewid wrth gerdded?' Safasant hwy, a'u digalondid yn eu hwynebau. Atebodd yr un o'r enw Cleopas, 'Rhaid mai ti yw'r unig ymwelydd â Jerwsalem nad yw'n gwybod am y pethau sydd wedi digwydd yno y dyddiau diwethaf hyn.' 'Pa bethau?' meddai wrthynt. Atebasant hwythau, 'Y pethau sydd wedi digwydd i Iesu o Nasareth, dyn oedd yn broffwyd nerthol ei weithredoedd a'i eiriau yng ngŵydd Duw a'r holl bobl. Traddododd ein prif offeiriaid ac aelodau ein Cyngor ef i'w ddedfrydu i farwolaeth, ac fe'i croeshoeliasant. Ein gobaith ni oedd mai ef oedd yr un oedd yn mynd i brynu Israel i ryddid, ond at hyn oll, heddiw yw'r trydydd dydd er pan ddigwyddodd y pethau hyn. Er hynny, fe'n syfrdanwyd gan rai gwragedd o'n plith; aethant yn y bore bach at y bedd, a methasant gael ei gorff, ond dychwelsant gan daeru eu bod wedi gweld angylion yn ymddangos, a bod y rheini'n dweud ei fod ef yn fyw. Aeth rhai o'n cwmni allan at y bedd, a'i gael yn union fel y dywedodd y gwragedd, ond ni welsant mohono ef.' Meddai Iesu wrthynt, 'Mor ddiiddeall ydych, ac mor araf yw eich calonnau i gredu'r cwbl a lefarodd y proffwyd! Onid oedd yn rhaid i'r Meseia ddiodeff y pethau hyn, a mynd i mewn i'w ogoniant?' A chan ddechrau gyda Moses a'r holl broffwyd, dehonglodd iddynt y pethau a ysgrifennwyd amdano ef ei hun yn yr holl Ysgrythurau.

Wedi iddynt nesáu at y pentref yr oeddent ar eu ffordd iddo, cymerodd ef arno ei fod yn mynd ymhellach. Ond meddent wrtho, gan bwysu arno, 'Aros gyda ni, oherwydd y mae hi'n nosi, a'r dydd yn dirwyn i ben.' Yna aeth i mewn i aros gyda hwy. Wedi cymryd ei le wrth y bwrdd gyda hwy, cymerodd y bara a bendithio, a'i dorri a'i roi iddynt. Agorwyd eu llygaid hwy, ac adnabuasant ef. A diflannodd ef o'u golwg. Meddent wrth ei gilydd, 'Onid oedd ein calonnau ar dân ynom wrth iddo siarad â ni ar y ffordd, pan oedd yn egluro'r Ysgrythurau inni?' Codasant ar unwaith a dychwelyd i Jerwsalem. Cawsant yr un ar ddeg a'u dilynwyd wedi ymgynnull ynghyd ac yn dweud fod yr Arglwydd yn wir wedi ei gyfodi, ac wedi ymddangos i Simon. Adroddasant hwythau yr hanes am eu taith, ac fel yr oeddent wedi ei adnabod ef ar doriad y bara.

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

Moliant i ti, O Grist.

Translation / Listen to the Gospel of our Lord Jesus Christ according to Luke. Glory to you, O Lord. / At that time: Two of them were going to a village called Emmaus, about seven miles from Jerusalem, and talking with each other about all these things that had happened. While they were talking and discussing, Jesus himself came near and went with them, but their eyes were kept from recognizing him. And he said to them, 'What are you discussing with each other while you walk along?' They stood still, looking sad. Then one of them, whose name was Cleopas, answered him, 'Are you the only stranger in Jerusalem who does not know the things that have taken place there in these days?' He asked them, 'What things?' They replied, 'The things about Jesus of Nazareth, who was a prophet mighty in deed and word before God and all the people, and how our chief priests and leaders handed him over to be condemned to death and crucified him. But we had hoped that he was the one to redeem Israel. Yes, and besides all this, it is now the third day since these things took place. Moreover, some women of our group astounded us. They were at the tomb early this morning, and when they did not find his body there, they came back and told us that they had indeed seen a vision of angels who said that he was alive. Some of those who were with us went to the tomb and found it just as the women had said; but they did not see him.' Then he said to them, 'Oh, how foolish you are, and how slow of heart to believe all that the prophets have declared! Was it not necessary that the Messiah should suffer these things and then enter into his glory?' Then beginning with Moses and all the prophets, he interpreted to them the things about himself in all the scriptures. As they came near the village to which they were going, he walked ahead as if he were going on. But they urged him strongly, saying, 'Stay with us, because it is almost evening and the day is now nearly over.' So he went in to stay with them. When he was at the table with them, he took bread, blessed and broke it, and gave it to them. Then their eyes were opened, and they recognized him; and he vanished from their sight. They said to each other, 'Were not our hearts burning within us while he was talking to us on the road, while he was opening the scriptures to us?'

Continued over the page

Myfyrdod / Reflection

Siôn Rhys Evans

Cyffes ffydd / An affirmation of faith

We believe in God,

**Creator, Word and Wisdom
who speaks in to every generation.**

**We believe in God the Creator
who looked upon the world
and declared it all to be good.**

**We believe in the Incarnate Son
and Only Begotten Word of God.**

**Born of Mary, he suffered the hatred of the world,
and was crucified.**

On the third day he rose again.

Conquering death, he ascended into heaven.

**We believe in God the Holy Spirit, Wisdom for Life,
who calls us to acknowledge in life and worship**

God with us, to the end of the age.

Amen.

That same hour they got up and returned to Jerusalem; and they found the eleven and their companions gathered together. They were saying, 'The Lord has risen indeed, and he has appeared to Simon!' Then they told what had happened on the road, and how he had been made known to them in the breaking of the bread.

Tangnefedd Peace

Daeth y Crist atgyfodedig a sefyll ym mysg ei ddisgyblion, a dweud wrthynt, "Tangnefedd i chwi".

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.

A hefyd gyda thi.

Emyn / Hymn

**Fe ddof yn llon at foddion Crist:
maddeuant a rhyddhád
yng ngwrth ei gariad ar y Groes;
ei aberth sydd iachád.**

**I come with Christians far and near
to find, as all are fed,
the new community of love
in Christ's communion bread.**

**As Christ breaks bread, and bids us share,
each proud division ends.
The love that made us, makes us one,
and strangers now are friends.**

**Fe ddof yn llon a chwrdd â Christ,
y brawd a'r cyfaill cu;
a'i wedd a welaf ym mhob un
sy'n frawd a chwaer i mi.**

**Together met, together bound
by all that God has done,
we'll go with joy, to give the world
the love that makes us one.**

Translation / The risen Christ came and stood among the disciples and said, 'Peace be with you'. / The peace of the Lord be always with you. And also with you.

Translation / I come with joy, a child of God, / forgiven, loved and free, / the life of Jesus to recall, / in love laid down for me.

Translation / The Spirit of the risen Christ, / unseen, but ever near, / is in such friendship better known, / alive among us here.

Diolchgarwch Thanksgiving

Let us pray:

Draw us close, O God, to you;
that in this bread and in this wine,
taken from the richness of the earth
and fashioned by human hands,
we may be renewed in faith and love for you;
in and through Jesus Christ.

Amen.

The Lord be with you.

And also with you.

Lift up your hearts.

We lift them up to the Lord.

Let us give thanks to the Lord our God.

It is right to give our thanks and praise.

True and living God,
the source of life for all creation,
you have made us in your own image.
Always and everywhere we give you thanks
through Jesus Christ our Lord.

Because in his victory over death
a new age has dawned,
the long reign of sin is ended,
a broken world is being renewed
and we are once again made whole.

Therefore, with angels and archangels
and with all the company of heaven
we praise your glorious name:

**Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,
Duw gallu a nerth,
nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.
Hosanna yn y goruchaf.
Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.
Hosanna yn y goruchaf.**

Bendigedig wyt ti, Dduw hollalluog,
am i'r Arglwydd Iesu,
y nos y bradychwyd ef,
gymryd bara,
ac wedi rhoi diolch i ti,
fe'i torrodd, a'i roi i'w ddisgyblion a dweud,
Cymerwch, bwyteuach; hwn yw fy nghorff
a roddir drosoch:
gwnewch hyn er cof amdanaf.

Yr un modd, ar ôl swper fe gymerodd y cwpan;
ac wedi rhoi diolch i ti,
fe'i rhoddodd iddynt a dweud,
Yfwch hwn, bawb;
y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i
a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau:
gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef
er cof amdanaf.

Translation / Holy, holy,
holy Lord, God of power and
might, Heaven and earth are
full of your glory. Hosanna
in the highest. Blessed is
he who comes in the name
of the Lord. Hosanna in the
highest. / Blessed are you,
almighty God, because on
the night he was betrayed
the Lord Jesus took bread,
and when he had given
thanks, he broke it, gave it to
his disciples and said, Take,
eat; this is my body which
is given for you: do this in
remembrance of me. In the
same way, after supper he
took the cup; when he had
given you thanks he gave it
to them and said: Drink this,
all of you; this cup is the new
covenant in my blood poured
out for you and for many for
the forgiveness of sins: do
this as often as you drink it in
remembrance of me.

Gadewch inni gyhoeddi dirgelwch y ffydd:

**Bu farw Crist.
Atgyfododd Crist.
Daw Crist mewn gogoniant.**

Felly, Dduw cariadus,
gan goffáu aberth Crist dy Fab
unwaith am byth ar y groes
a buddugoliaeth ei atgyfodiad,
gofynnwn i ti dderbyn ein haberth hwn o foliant.

Anfon dy Ysbryd Glân arnom ni ac ar y rhoddion hyn
er mwyn inni gael ein porthi
â chorff a gwaed dy Fab
a'n llenwi â'th fywyd a'th ddaioni.

Una ni yng Nghrist a rho inni dy dangnefedd
er mwyn inni gyflawni dy waith
a bod yn gorff iddo ef yn y byd.

Trwyddo ef, gydag ef, ac ynddo ef,
yn undod yr Ysbryd Glân,
Dad hollalluog,
eiddot ti yw'r holl anrhydedd a gogoniant
yn oes oesoedd.

Amen.

Ffur ar Weddi'r Arglwydd / A form of the Lord's Prayer

We pray, O God:

**Holy and wonderful is your Name.
You reach out to all creation
with a gentle touch of welcoming love.
You breathe peace into your world.
Feed all who hunger, physically and spiritually.
Set free all people oppressed and held captive.
Open our minds to confess our wrong-doing.
Open our lives to your forgiveness.
Open our hearts to forgive others.
Holy and wonderful is your Name.
You are God, with us always, to the end of the age.
Amen.**

Dywedodd Iesu, 'Myfi yw Bara'r Bywyd.'

Dywedodd Iesu, 'Cymerwch, dyma fy nghorff.'

Mae gennym fara i'w gymryd. Gwrandewch wrth iddo dorri.

Dywedodd Iesu, 'Gwnewch hyn er cof amdanaf i.'

**Derbyniwn y bara hwn,
a rhannwn bara hwn,
er cof am Iesu.**

Translation / Let us proclaim the mystery of faith: Christ has died. Christ is risen. Christ will come in glory. / Therefore, loving God, recalling now the sacrifice of Christ your Son once for all upon the cross and the triumph of his resurrection, we ask you to accept this our sacrifice of praise. Send your Holy Spirit on us and on these gifts that we may be fed with the body and blood of your Son and be filled with your life and goodness. Unite us in Christ and give us your peace that we may do your work and be his body in the world. Through him, with him, in him, in the unity of the Holy Spirit all honour and glory are yours, almighty Father, for ever and ever. Amen.

Translation / Jesus said: 'I am the Bread of Life.' Jesus said: 'Take, this is my body.' We have bread to take. Listen as it is broken. Jesus said: 'Do this in remembrance of me.' We receive this bread, and we will share this bread, in remembrance of Jesus.

Cymuno / Making our Communion

Emyn / Hymn

We shall go out with hope of resurrection,
 we shall go out, from hope to hope go on,
 we shall go out and tell our stories boldly,
 tales of a love which alone we're strong.
 We'll sing our songs of wrongs that can be righted,
 we'll dream our dream of hurts that can be healed,
 we'll weave a cloth of all the world united
 within the vision of a Christ in whom we're healed.

Fe roddwn lais i'r rhai sy'n fud ac unig,
 fe gyfansoddwn gân i'r rhai y bu
 i gerdd y Crëad ymbellhau o'u clywed,
 ond sydd am ganu eto am y cu.
 Sibrydiwn eiriau gobaith pan fo wylo,
 a salmau cariad wrth alarus fyd;
 fe gerddwn lwybr golau atgyfodiad,
 ei ras yn rhad, ei wyrth yn wyrdd, a'i werth yn ddrud.

Wedi'r Cymun / After Communion

In thanksgiving for all we have received:

God of Love,
 may we who have received in remembrance
 this bread and wine,
 a foretaste of the banquet to come,
 be nourished in faith
 to reveal the risen Jesus
 through the lives we lead,
 now and to the end of the age.
 Amen.

Ymadael / Dismissal

Rhodded Dduw i chwi ras i fyw mewn ffydd,
 ac i glywed feunydd o'r newydd
 eich galwad i ddilyn Iesu;
 a bendith Duw hollalluog,
 y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân
 a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Go in and with the love of God
 to serve Christ in faith.

Thanks be to God.

Translation / God give you
 grace to live in faith, and
 to know each new day your
 call to follow in way of Jesus
 Christ; and the blessing of
 God almighty, the Father, the
 Son, and the Holy Spirit, be
 among you and remain with
 you always. Amen.

Nodiadau / Notes

A page of lined paper with two columns of horizontal dotted lines for writing.

Dduw ein holl deithio, fe alwaist dy was Cadfan
i weddio, cenhadu a thystiolaethu ar lwybr y pererin:
rho i'th Eglwys heddiw yr un alwedigaeth
i ddynesu atat mewn addoliad, i ehangu teulu'r ffydd, ac i garu dy holl Greadigaeth,
fel y gall y byd a'th geisiodd di dros fôr y canrifoedd,
hyd yn oed yn ein dyddiau ni ganfod yn dy sancteiddrwydd
ei wir orffwysfan a'i gartref tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

God of our journeying, you called your servant Cadfan
to the pilgrim's life of prayer, mission and witness:
give to your Church today the same commission
to draw near to you in worship, to broaden the family of faith, and to love all your Creation,
so that the world that has sought you across a sea of centuries
may even in our days find in your holiness
a true resting place and an eternal home;
through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit,
one God, now and for ever. Amen.

Tŷ Deiniol, Clos y Gadeirlan, Bangor,
Gwynedd LL57 1RL
01248 354999
bangor@eglwysyngnghymru.org.uk
bangor.eglwysyngnghymru.org.uk

Tŷ Deiniol, Cathedral Close,
Bangor, Gwynedd LL57 1RL
01248 354999
bangor@churchinwales.org.uk
bangor.churchinwales.org.uk



**Esgobaeth
Bangor**
The Diocese
of Bangor

Yr Eglwys yng Nghymru
The Church in Wales